Rheoli Anwedd a Llwydni

tai CEREDIGION

Sut i gysylltu â Tai Ceredigion

Drwy lythyr:
Unit 4, Pont Steffan Business Park,
Lampeter, Ceredigion, SA48 7HH

Dros y ffôn:
Ymholiadau Cyffredinol 0345 606 7654 (pris galwadau lleol)
Dydd Llun - Dydd Gwener 9:00am - 5:00pm

Adrodd am waith atgyweirio a chynnal a chadw mewn argyfwng y tu allan i oriau swyddfa arferol
0800 111 4228 (yn rhad ac am ddim o ffôn arferol)
0300 123 3300 (pris galwadau lleol o ffôn symudol)

Drwy e-bost:
post@taiceredigion.org.uk

Gwefan:
www.taicerdigion.org.uk

Microwefan:
lookinglocal.gov.uk

Cynnwys

1. Beth yw anwedd?

2. Beth sy'n achosi anwedd?

3. Awyru'r cartref

Cynhyrchwyd gan
Ganolfan Cyngor ynghylch
Effeithlonrwydd Ynni Leeds

Rhifau cyswllt defnyddiol

0800 512 012	Y Ganolfan Cyngor ynghylch Effeithlonrwydd Ynni
0800 111 999	Nwy (os bydd nwy yn gollwng)
0800 375 675	Trydan (os ceir toriad trydan)
0845 906 0708	Golwg ar Ynni – nwy a thrydan (cwynion gan ddefnyddwyr)
0845 915 1515	Taliadau tanwydd dros y gaeaf
0800 009 966	Age Concern
0808 800 6565	Help the Aged
0845 130 9177	Disabled Living Foundation
0800 882 200	Y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (i bobl ag anableddau a'u gofalwyr)

Os oes arnoch angen cyngor yn ymwneud ag ynni ac nid ydych yn gwybod â phwy i gysylltu, ffoniwch y Ganolfan Cyngor ynghylch Effeithlonrwydd Ynni ar 0800 512 012. Bydd staff y Ganolfan yn gwneud eu gorau i'ch rhoi chi mewn cysylltiad â'r sefydliad gorau i ddiwallu eich anghenion.

MAE'R LLYFRYN HWN YN CYNNWYS GWYBODAETH BWYSIG AM SUT I LEIHAU'R PROBLEMAU YN EICH CARTREF A ACHOSIR GAN ANWEDD A LLWYDNI.

Os byddwch yn ei chael yn anodd deall y llyfryn hwn, gofynnwch i gyfaill, aelod o'r teulu neu rywun yr ydych yn ei adnabod ei gyfieithu i chi. Os nad oes gennych rywun all wneud hynny, ffoniwch y Ganolfan Cyngor ynghylch Effeithlonrwydd Ynni ar RADFFÔN 0800 512 012 i roi gwybod i'r staff yno am eich sefyllfa, a byddant yn eich helpu i gael copi o'r llyfryn wedi'i gyfieithu.

1. Beth yw anwedd?

Mae rhywfaint o leithder yn yr aer bob amser, hyd yn oed os na allwch ei weld. Os bydd aer yn oeri, nid yw'n gallu dal yr holl leithder a gaiff ei gynhyrchu gan weithgareddau pob dydd, a bydd rhywfaint o'r lleithder hwn yn ymddangos fel diferion bach o ddŵr, sy'n fwyaf amlwg ar ffenestri ar fore oer.

Dyna beth yw anwedd. Gellir ei weld ar ddrychau pan fyddwch yn cael bath neu gawod, ac ar arwynebau oer megis teils neu waliau oer hefyd.
Mae anwedd yn digwydd yn ystod tywydd oer, hyd yn oed pan fydd y tywydd yn sych. Nid yw'n gadael staen o gwmpas ei ymylon ar waliau. Os oes staen i'w weld, efallai bod rheswm arall dros y lleithder hwn, megis dŵr yn gollwng i mewn i'ch cartref oherwydd nam yn y gwaith plymio, teils rhydd ar y to neu leithder codi.

Dylech chwilio am anwedd yn eich cartref. Gall ymddangos ar ffenestri neu ger ffenestri, mewn corneli ac mewn cypyrddau a chypyrddau dillad neu'r tu ôl iddynt. Mae anwedd yn ffurfio ar arwynebau oer a mannau lle nad yw'r aer yn symud llawer.

Problemau sy'n gallu cael eu creu gan ormod o anwedd

Gall lleithder sy'n cael ei achosi gan ormod o anwedd arwain at lwydni'n tyfu ar waliau a dodrefn ac ar ddillad a ffabrigau eraill, a gall achosi i fframiau ffenestri pren bydru. Yn ogystal, mae amodau llaith a gwlyb yn creu amgylchedd lle gall llau llwch luosi'n rhwydd. Mae llwydni a llau llwch yn gallu gwaethygu problemau sy'n gysylltiedig â'r system anadlu, megis asthma a broncitis.

ALLWEDD

- Llif awyr
- Anwedd
- Llwydni
- Inswleiddio

Y camau cyntaf i'w cymryd i atal anwedd

Bydd angen i chi gymryd camau priodol i ymdrin ag anwedd, ond yn y cyfamser, mae rhai pethau syml y dylech eu gwneud yn syth.

Sychwch eich ffenestri a silffoedd ffenestri bob bore, yn ogystal ag arwynebau yn y gegin neu'r ystafell ymolchi sydd wedi eu gwlychu. Gwasgwch y cadach yn sych yn hytrach na'i sychu ar wresogydd.

Y camau cyntaf i'w cymryd i atal llwydni rhag tyfu

Yn gyntaf, ewch ati i drin y llwydni sydd eisoes yn eich cartref ac yna ewch i'r afael â phroblem sylfaenol anwedd er mwyn atal y llwydni rhag ailymddangos.

I ladd llwydni a chael gwared arno, dylech sychu neu chwistrellu waliau a fframiau ffenestri â hylif sy'n lladd ffwng sydd â 'rhif cymeradwyo' gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gan sicrhau eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae'r hylifau lladd ffwng hyn ar gael yn aml mewn archfarchnadoedd lleol. Ewch â dillad sydd â llwydni arnynt i gael eu sychlanhau a golchwch garpedi â siampŵ. Peidiwch â defnyddio brwsh neu sugnwr llwch i geisio cael gwared ar lwydni.

Ar ôl trin y llwydni, ailaddurnwch gan ddefnyddio paent o ansawdd da sy'n lladd ffwng a phast papur wal sy'n lladd ffwng ac sy'n gallu gwrthsefyll llwydni i helpu i atal llwydni rhag tyfu'n ôl. Ni fydd paent sy'n lladd ffwng neu baent sy'n lleihau anwedd yn effeithiol os caiff ei orchuddio â phaent neu bapur wal arferol.

Cofiwch: yr unig ffordd o atal llwydni difrifol yn llwyr yw trwy gael gwared ar y lleithder.

2. Beth sy'n achosi anwedd?

Ceir pedwar prif ffactor sy'n achosi anwedd:

- GORMOD O LEITHDER YN CAEL EI GREU YN Y CARTREF.
- DIM DIGON O AWYRU.
- ARWYNEBAU OER.
- TYMHEREDD EICH CARTREF.

Mae angen i chi ystyried yr holl ffactorau hyn er mwyn datrys problem anwedd.

3. Lleithder a gynhyrchir yn y cartref

Mae ein gweithgareddau pob dydd yn gallu gwneud yr aer yn ein cartref yn fwy llaith. Mae ein hanadl yn ychwanegu rhywfaint o leithder hyd yn oed (a ydych chi'n cofio anadlu ar ffenestri oer a drychau i greu tarth arnynt?). Bydd un person yn cysgu yn ychwanegu hanner peint o ddŵr i'r aer dros nos, a bydd yn ychwanegu dwywaith cymaint o ddŵr i'r aer yn yr un faint o amser pan fydd yn weithgar yn ystod y dydd.

Bydd creu llai o leithder yn lleihau'r posibilrwydd o achosi anwedd. I roi rhyw syniad i chi ynghylch faint o ddŵr ychwanegol y gallai hynny fod mewn diwrnod, dyma rai enghreifftiau:

2 berson gartref am 16 awr
3 pheint

Bath neu gawod
2 beint

Sychu dillad yn y tŵ
9 peint

Coginio a defnyddio tegell
6 pheint

Golchi llestri
2 beint

Gwresogydd nwy potel
(ei ddefnyddio am 8 awr)
4 peint

Cyfanswm y lleithder a ychwanegwyd mewn un diwrnod = 26 peint neu 14.8 litr

Dylech hongian eich dillad allan yn yr awyr agored i sychu os yw hynny'n bosibl, neu eu hongian yn yr ystafell ymolchi â'r drws ar gau a ffenestr yn gilagored neu ffan echdynnu ymlaen. Peidiwch â chael eich temtio i roi'r dillad ar wresogyddion neu o flaen gwresogydd sy'n taflu gwres.